



CREATIVITY IN THE UK

COFNODION CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 LTD

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")

TRWY GYNHADLEDD FIDEO DYDD GWENER 26 AWST 2022, 10:00 – 13:30

ar gyfer UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU (y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

Yn bresennol:

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)	Cadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol
Amali de Alwis (AdA)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Hayaatun Sillem CBE (HS)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Rob Smith MBE (RS)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Maggie Aderin-Pocock MBE (MAP)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Yr Athro Andrew Thompson CBE (AT)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Priya Lakhani OBE (PL)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Lloegr
Liam Hannaway (LH)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon
Roger Lewis	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Cymru
Dr. Bridget McConnell CBE (BMcC)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli'r Alban

Arsylwyr y Bwrdd yn bresennol:

Emma Squire (ES)	Llywodraeth y DU, Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")
Richard Walsh (RW)	Llywodraeth yr Alban
Gerwyn Evans (GE)	Llywodraeth Cymru

Hefyd yn bresennol:

Martin Green CBE (MG)	Prif Swyddog Creadigol
Phil Batty (PB)	Cyfarwyddwr Gweithredol
Ian Reid (IR)	Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
David Grady (DG)	Prif Swyddog Ariannol
Bea Hendry (BH)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol
Lucy Bailey (LB)	Cyfarwyddwr Prosiect
Ben McKnight (BMcK)	Cyfarwyddwr Cyfathrebu (eitemau 2d-2e)
Sam Skillings (SS)	Cyfarwyddwr Marchnata (eitemau 2d-2e)
Laura O'Flynn (LO'F)	Pennaeth Llywodraethu a Diddymu (Cofnodwr)
Laura O'Donnell (O'D)	Rheolwr Prosiect Cynorthwyol

68/22 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol. Cafwyd ymddiheuriadau gan Faraz Tasnim, Louise Hyland a Caroline McGrory.

Atgoffodd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod hwn oedd cael y diweddariadau geiriol diweddaraf ac felly nid oedd angen pecyn Bwrdd safonol llawn.

Ni chododd y Bwrdd unrhyw ddatganiad o fuddiannau.

69/22 Cymeradwyo'r cofnodion a materion yn codi

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod anffurfiol y Bwrdd a gynhaliwyd ar 09 Mehefin 2022 fel cofnod cywir a byddai'n cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Derbyniwyd cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2022 fel cofnod cywir a byddai'n cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod anffurfiol y Bwrdd yn unig a gynhaliwyd ar 11 Awst 2022 fel cofnod cywir a byddai'n cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan, yn amodol ar fân ddiwygiad gan HS.

Nododd y Cadeirydd fod hwn yn gyfarfod ffurfiol gydag agenda safonedig ac amser sylweddol wedi'i neilltuo ar gyfer edrych ymlaen. Hysbysodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion yn codi a nododd gynnydd yn y camau gweithredu sy'n weddill.

70/22 Cynnydd hyd yn hyn

Trosglwyddwyd y Gadair i MG ar gyfer fframio. Rhoddodd MG amlinelliad o'r daith hyd yma, newidiadau strwythurol sefydliadol diweddar ac o ganlyniad i hynny y cynnydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

Nododd PB y byddai'r eitem agenda hon yn rhoi diweddariad ar y 7 comisiwn byw yn unig. Byddai gweddill y comisiynau yn cael eu cynnwys yn yr eitem rhagolwg yn nes ymlaen ar yr agenda.

Fframiodd PB y cyflwyniad drwy ddefnyddio penawdau'r cyfryngau i ddangos y newid cadarnhaol o ran cyfranogiad y gynulleidfa ac atgoffodd y Bwrdd o'r ddau amcan:

1. Dod â phobl at ei gilydd i ddathlu ein cryfderau, gwerthoedd a hunaniaethau, a hybu balchder drwy gymunedau.
2. Dathlu ein cynnig i'r byd, gan gefnogi ein brand a helpu i ddenu busnes a buddsoddiad newydd.

Aeth y cyflwyniad ymlaen i ddarparu diweddariad ar gynnydd, statws KPI ar gyfer pob un o'r comisiynau byw a throsolwg o wersi a ddysgwyd y cafwyd newidiadau yn ei sgil. Fe wnaeth PB oedi ar gyfer gwestiynau ar ôl pob diweddariad comisiwn a chynhaliodd y Bwrdd drafodaethau.

Yn ogystal â thrafod cynnwys y sleidiau, nododd y Bwrdd y canlynol hefyd:

- Our Place in Space - cadarnhad o lyfr newydd gan Oliver Jeffers a byddai hyn yn cael ei gyhoeddi a gofynnodd i'r Weithrediaeth ystyried sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein ffigurau effaith.
- Dreamachine – nodwyd y gwaith canolbwyntio ar y cyfrifiad canfyddiad digidol sydd ar y gweill .
- Green Space, Dark Skies – trafododd y Bwrdd gyda'r Weithrediaeth y strategaeth ymgysylltu digidol ar gyfer y prosiect hwn. Amlygodd MG mai dim ond newydd ddod yn rhan o'r tîm monitro y mae tracio digidol ac roedd data ychwanegol i'w gynnwys o fewn y niferoedd hyn mewn dangosfyrddau yn y dyfodol.

Daeth PB â'r cyflwyniad i ben gyda chrynodeb o'r Rhaglen lawn gan ganolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth i optimeiddio'r digwyddiadau byw parhaus.

Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am y diweddariad ar gynnydd manwl gan agor y drafodaeth.

Yn ychwanegol:

- Rhoddodd PB ddiweddariad lefel uchel ar Ddysgu a Chyfranogi ac fe gadarnhaodd fod diweddariad manwl ar hwn wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Nododd MG fod y farchnad wedi newid o ran gofynion ers i ni ddod allan o Covid ac roedd wedi bod yn her. Cefnogodd BMcC a theimlodd bod angen amser arweiniol o flwyddyn ar ysgolion, ond mae modd gadael yr adnoddau a'u datblygu. Roedd PL yn gwerthfawrogi'r her o ymgysylltu ag ysgolion, fodd bynnag roedd PL hefyd yn teimlo bod cyfle o hyd i gynyddu'r ffigurau dysgu, er enghraifft dolen at fideo yn ymgysylltu â'r plant yn uniongyrchol ar lwyfan dysgu. Rhoddodd PL ei chefnogaeth i hyn ac roedd wedi estyn allan i AAS yn ystod y cyfarfod.
- Gofynnodd LH am fwy o wybodaeth am y sioeau teithiol. Dywedodd PB fod uned gludadwy ar gyfer UNBOXED wedi ei chreu sy'n arddangos amrywiaeth o gomisiynau ac yn mynd allan ar daith. Y cynllun yw mynd i wyliau addysgol mawr iawn, er enghraifft New Scientist Live. Cynigiodd LH y byddai'n siarad â'r Awdurdod Addysg yng Ngogledd Iwerddon.
- Nododd y Cadeirydd y bydd gwaddol yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer effaith a rhifau sydd dim ond yn rhannol hysbys ac a ragwelir yn rhannol ac atgoffodd y Bwrdd y daw'r amser pan fydd angen mynegi'r cyfleoedd uchelgais a gwaddol.

Crynhodd y Cadeirydd y byddai'r Bwrdd nawr yn cael diweddariadau ystadegol misol ym mis Medi (cyn cyfarfod y Bwrdd) a mis Hydref. Cadarnhaodd PB hefyd, fel rhan o'r gwaith adrodd, y bydd yn cael ei rannu ar gyfer y 4 gwlad a phan fyddai mewn sefyllfa i wneud hynny, byddai briff yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd.

CAM GWEITHREDU: PB i ddosbarthu'r sleidiau ar gynnydd hyd yn hyn i'r Bwrdd.

CAM GWEITHREDU: LH i wirio gyda Swyddfeydd Gogledd Iwerddon y gofynion dadansoddi ar gyfer y gwerthusiad yng Ngogledd Iwerddon.

71/22 Adroddiad ARAC

Derbyniwyd y papur heb ei ddarllen a throsglwyddwyd y Gadair i DG. Canolbwyntiodd DG ar atodiad y papur, Budget Headroom. Dywedodd DG ei fod wedi siarad ag FT cyn y cyfarfod ac wedi cael cymeradwyaeth lawn ARAC o ran y costau a welir yn y papur ac fe gyflwynodd PB argymhelliad ynghylch lle y dylid rhyddhau'r arian yn y rhaglen.

Darllenodd y Cadeirydd nodiadau a gafodd gan FT yn cadarnhau bod diddymu bellach yn rhywbeth difrifol i ARAC ganolbwyntio arno a nododd fod cynlluniau FT i gyfarfod â Chadeirydd ARAC yr OC i sicrhau aliniad o ran diddymu cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi. Ni wnaeth y Bwrdd unrhyw sylwadau.



CREATIVITY IN THE UK

PENDERFYNWYD BOD Y BWRDD yn seiliedig ar gefnogaeth ARAC, wedi cymeradwyo'r Rhestr o Flaenoriaethau o ran Buddsoddiadau Cychwynnol 'Da i Wych'. Mae hyn yn amodol ar gymeradwyaethau'r Tîm Rheoli Gweithredol parhaus.

72/22 Gweithlu

Gwahoddodd y Cadeirydd PB. Rhoddodd PB wybod am 14 o ddechreuwyd newydd a oedd wedi ymuno yn y pythefnos diwethaf, gyda buddsoddiad arbennig yn y timau Rheoli Rhaglenni, Diddymu a Chyfathrebu. Bydd y clystyrau ad-drefnu, marchnata a chomisiwn yn caniatáu i MG a'r tîm ehangach i ganolbwyntio dros y 6 wythnos nesaf ar y disgwyliad lefel uchel.

Cadarnhaodd y Grŵp Adolygu'r Gweithlu ddyddiadau gorffen gweithwyr UNBOXED, na fyddant yn symud ymlaen i ymgynghoriad.

Gofynnodd y Cadeirydd am friff byr gan y Tîm Gweithredol ynghylch dod â phopeth i ben yn araf yn fewnol cyn clywed am fanylion cyfreithlondeb gan PwC yn y Bwrdd ym mis Medi.

73/22 Rhagolwg mis Medi

Croesawodd y Cadeirydd BMcK ac SS a ymunodd â'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod Graham Devlin wedi'i gomisiynu i ysgrifennu adroddiad cipolwg, gan ddarparu naratif i adrodd stori UNBOXED a chyfeiriodd at y briff a'r bywgraffiad a oedd wedi'i lanlwytho i VBR.

Fe wnaeth MG fframio'r eitem, gan atgoffa pawb y byddai'r eitem hon yn cwmpasu cam olaf gweithgaredd y Rhaglen. Mae gan y Comisiynau sydd eto i fynd yn fyw y potensial i ragori ar eu ffigurau KPI, ond mae'r data a gyflwynir yn seiliedig ar ddigwyddiadau tebyg.

Rhoddodd PB gyflwyniad a amlygodd nodau'r ymgyrch sef manteisio ar bob cyfle, gan edrych yn benodol ar ymgysylltu, mwy o ymwybyddiaeth, lleoli'r effeithiau cadarnhaol, arddangos dathliad sylweddol byd-eang o greadigrwydd a chyrhaeddiad.

Aeth BMcK ymlaen i gyflwyno blaenoriaethau marchnata yn ystod yr ymgyrch 10 wythnos a chyflwynodd PB linell amser o weithgaredd, gan gadarnhau mai 5 Tachwedd 2022 fyddai diwedd y Rhaglen UNBOXED i gyd-fynd â diwedd SEE MONSTER.

Gofynnodd y Bwrdd a fyddai Our Place in Space yn mynd i ddinas yn y dyfodol. Rhoddodd MG ddiweddariad o ran yr heriau ond parhaodd i fod yn obeithiol.

CAM GWEITHREDU: BMcK i anfon mynegiad o'r Strategaeth PR i Gadeirydd y Bwrdd.

Gofynnodd AT am adolygiad o ba ffigurau digidol gafodd eu hystyried o ran ymgysylltu yn erbyn cyrhaeddiad. Cefnogodd AdA hyn a gofynnodd am fwy o gywreinrwydd ynghylch perfformiad gweithgaredd digidol o'i gymharu â'r

dangosfwrdd presennol. Amlinellodd PB y dull o fynd yn ddigidol a rhoddodd gadarnhad bod hwn yn rhywbeth y dylid canolbwyntio arno â blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod mis Medi i fis Rhagfyr. Nododd y Bwrdd y gwaith o ganolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau am arian o'r ystod eang iawn o brofiadau a chyfleoedd ymgysylltu a gyflwynwyd drwy UNBOXED ac roedd yn gwerthfawrogi bod y tîm yn gweithio'n galed ac yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar hyn.

74/22 Marchnata a Chyfathrebu

Cyflwynodd BMcK ac SS ddiweddariad ar farchnata a chyfathrebu o fewn eitem Rhagolwg Mis Medi yr agenda a sylwadau a gipiwyd uchod.

75/22 Unrhyw fusnes arall

Nododd y Bwrdd nad oedd 'Unrhyw Fusnes Arall'.

Myfyrdodau a sylwadau cloi

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am y cyfraniadau.

Diwedd y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 13:30. Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf yw 23 Medi 2022, 10:00 – 13:00, yn Birmingham.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:

Cyfarwyddwyr y Bwrdd

Arsylwyr y Bwrdd

Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd: 13 Medi 2022

Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr: 13 Medi 2022

Dyddiad dosbarthu: 23 Medi 2022